
# Gweithlen

## Cymraeg Ail -Iaith UNED 2
## Cyfathrebu ag eraill
## GWAITH PARATOI




**Yn y llyfr mae digon o gyfle (*opportunity*) i ymarfer y sgiliau fydd yn helpu gydag Uned 2 yr arholiad TGAU Cymraeg Ail Iaith.**

**Mae'r help a'r tasgau ar dudalen 72 - 99**

Mae'r llyfr yn costio £16.50 ac mae e ar gael o **www.illuminatepublishing.com**

**Yn Uned 2** mae'r pwyslais (*emphasis*) ar y **SIARAD** (20% o'r marciau a'r **GWRANDO** yn 50% o'r marciau).

Mae rhaid cael digon o ymarfer sgiliau **siarad** a **gwrando** mewn pâr neu mewn grŵp o dri.

Mae asesiad **UNED 2** yn seiliedig ar (*based on*) daflen neu 'sbardun' (*prompt*) i helpu gyda'r trafod. Bydd y daflen yn cynnwys (*contain*) lluniau, graff, tabl, poster, testunau byr yn mynegi barn.

**Yn yr asesiad bydd rhaid i chi:**

- roi gwybodaeth trwy gyfeirio at (*refer to*) y lluniau, y tabl, y graff, y poster, y testunau byr.
- gwrando ac ymateb i aelodau eraill y grŵp
- cyfeirio at/mynegi barn am gynnwys y sbardun a mynegi eich barn eich hun
- cytuno neu anghytuno gyda'r grŵp a gofyn cwestiynau

Lluniau

Graff

Testunau byr yn mynegi barn

Posteri







4-7 Gweithlen IAW-Mai19.indd 1 19/03/2019 15:44:03

Ymateb i destun byr a graff

# TASG 1




"Fy hoff fwyd ydy bwyd o'r Eidal. Dw i wrth fy modd yn mynd i Pizza Express i fwyta. Byddwn i byth yn dewis byrgyr a sglodion achos dw i'n trio bwyta'n iach," meddai Olivia Blwyddyn 11.




(a) **DARLLENWCH** y testun byr uchod ac yna:

**(i)** Rhowch wybodaeth i'ch partner.

e.e Hoff fwyd Olivia ydy bwyd o'r Eidal.

**(ii)** Mynegwch eich barn ac yna dwedwch beth ydy eich barn chi.

**(iii)** Gofynnwch i un o'r grŵp beth ydy ei farn / ei barn. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno? Rhowch reswm.

**ENGRAIFFT**:

**(i)** Hoff fwyd Olivia ydy bwyd o'r Eidal.

**(ii)** Dw i ddim yn cytuno efo Olivia. Mae'n well gen i fwyd o China.

**(iii)** Beth wyt ti'n feddwl Gracie?

(*Ateb Gracie: 'Fy hoff fwyd ydy pysgod a sglodion*')

Dw i'n hoff iawn o bysgod a sglodion ond fydda i ddim yn dewis pysgod a sglodion yn aml achos, fel Olivia, dw i'n trio bwyta'n iach.

**(b)** **ASTUDIWCH** y graff ac yna defnyddiwch y patrymau iaith canlynol i ymateb i'r data ar y graff.

Dw i'n synnu bod … yn …
mai dim ond …
Dw i'n gweld bod …
Dim ond (e.e. deg y cant 10%) sy'n hoffi … Dw i methu credu'r peth.
(e.e. ugain y cant 20%) sy'n dweud mai pizza ydy eu hoff fwyd. Mae'n gwneud sens.
Mae … y cant yn hoff o … Dw i'n un ohonyn nhw.
Dim ond 10% sy'n dewis … ! Mae'n sioc i mi.
… ydy'r bwyd mwyaf poblogaidd. Dw i ddim yn synnu, cofiwch.
… ydy'r bwyd lleiaf poblogaidd. Tybed pam?

**Rhannwch eich barn gyda phartner, grŵp neu'r dosbarth cyfan.**



4-7 Gweithlen IAW Mai19.indd 2 19/03/2019 15:44:09

# TASG 2

Taflen **'Y PENWYTHNOSAU'**
**DARLLENWCH** y daflen ac hefyd y blychau (*boxes*) coch a gwyrdd o amgylch y daflen i weld sut mae grŵp o ddisgyblion Bl. 10 wedi dechrau paratoi at yr asesiad **UNED 2.**

**Yn y blychau coch maen nhw'n rhoi gwybodaeth trwy gyfeirio at y lluniau, y graff, y posteri ayyb**

Yn y blychau gwyrdd maen nhw'n cyfeirio at/mynegi barn am y testun ac yn cynnwys eu barn eu hunain.

Mae'n rhaid i ambell un weithio ar y penwythnos.


Mae 6% o bobl ifanc yn treulio'r penwythnos yn cysgu.

Dw i'n cytuno ei bod hi'n braf i ymlacio ar ôl gweithio'n galed trwy'r wythnos.

Wrth gwrs mae merched yn mwynhau siopa.

Mae rhai pobl ifanc yn mynd allan i fwynhau eu hunain. Dyna dw i'n hoffi.

Mae llawer o bethau i wneud ar y penwythnos.




Mae ymlacio gyda ffrindiau'n eitha poblogaidd hefyd.

Mae hyn yn syniad da, yn fy marn i. Mae'n braf cael 'catch-up' dros baned o goffi.

Gwneud gwaith cartref? Dw i ddim yn meddwl...!

Siopa ydy'r peth mwyaf poblogaidd ar y penwythnos.

Dw i ddim yn gallu credu bod pobl ifanc yn creu problem ar y stryd fawr.

# TASG 3

Ymateb i'r daflen **'Y PENWYTHNOSAU'.** Mae llawer o batrymau iaith defnyddiol iawn yn y blychau coch a gwyrdd.

**1. DYSGWCH** nhw a defnyddiwch nhw wrth i chi baratoi at asesiad Uned

**a) Patrymau iaith** sy'n cyfeirio at y posteri, y graff, y testunau byr a'r lluniau. y sbardun.

- Mae llawer o bethau i wneud...
- Mae rhai pobl ifanc yn...
- Wrth gwrs, mae...
- Mae ... yn eithaf poblogaidd hefyd
- Mae ...% o bobl ifanc yn...
- Mae ambell un yn...
- ... ydy'r peth mwyaf poblogaidd.
- Yn ôl y graff, ... ydy'r lleiaf poblogaidd

**b)** Patrymau iaith i fynegi barn am gynnwys y daflen/rhoi barn eu hunain.

- Dyna dw i'n hoffi gwneud.
- Dw i'n cytuno ei bod hi'n braf...
- Dw i ddim yn meddwl!
- Dw i ddim yn gallu credu bod...
- Mae hyn yn syniad da yn fy marn i.
- Mae'n braf cael...
- Mae hyn yn fy synnu i achos...
- Faswn i ddim yn hoffi ... achos...


**2.** Gweithiwch gyd phartner. Defnyddiwch y patrymau iaith yn (a) a (b) uchod
**(i)** i gyfeirio at y poster, y graff ac yn y blaen
**(ii)** i fynegi barn am y cynnwys ac i fynegi eich barn eich hun ac yna
**(iii)** gofynnwch gwestiwn i'ch partner a
**(iv)** ymateb i'ch partner

# TASG 4

**GWYLIO** 'clip' o fideo i gael syniadau – ac hefyd i wella sgiliau gwylio a gwrando.

Defnyddiwch y link yma: bit.ly/2tMlZ4L
Dewiswch yr adnodd yma ac yna dewiswch '**Clip 4**'

Gwyliwch y clip o'r sgwrs rhwng Devika a'i ffrind. Maen nhw'n sôn am yr ardal ac yn trafod y pethau mae pobl yn hoffi wneud ar y penwythnos.




4-7 Gweithlen IAW Mai19.indd 4 19/03/2019 15:44:10